**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (122)**
**Dydd Mercher, 2 Mawrth 2005**

# AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

**Eitem 1**

**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Y cwestiynau

.......................................

## Eitem 2

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

Y cwestiynau

.......................................

## Eitem 3

## Dadl ar OFCOM - Ni gyflwynwyd cynnig

**Cytunodd y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ar 1af Mawrth i ohirio Rheolau Sefydlog i drafod y cynnig canlynol -**

**NNDM2321 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu bod gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg rôl allweddol yng Nghymru heddiw a bod angen ei gynnal a’i gryfhau ar gyfer y

dyfodol digidol.

*Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:*
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau canlynol at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

*(1), (2)*
*(3), (4), (5) (6) a (7)*

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gwasanaeth digidol cynhwysfawr ledled Cymru gyfan pan fydd yr signal analog yn cael ei ddiffodd ac nad oes neb yn cael ei gau allan yn gymdeithasol oherwydd y gost uchel.

**2. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gynrychiolydd o Gymru ar Bwyllgor Gweithredol OFCOM i helpu i sicrhau'r dyfodol digidol gorau i Gymru.

**3. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu y bydd angen edrych yn ofalus ar argymhellion Cam 3 OFCOM a'u diwygio yn ofalus os na fwriedir iddynt gyfaddawdu agweddau ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**4. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r cyfraniad sydd wedi'i wneud gan gynhyrchu ym maes y

teledu a ffilmiau at economi Cymru ac yn credu bod rhaid i ddiwygiadau i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus adeiladu ar y llwyddiant hwn.

**5. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod y rôl allweddol y mae S4C wedi'i chwarae o ran teledu cyfrwng Cymraeg yng Nghymru ac yn cydnabod yr angen i ddiogelu, amddiffyn a gwella darlledu trwy'r Gymraeg.

**6. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod yr angen i gyflwyno sylwadau cryf i OFCOM er mwyn cadw ITV Cymru fywiog sy'n gallu cynhyrchu gwasanaethau newyddion cynhwysfawr a hefyd raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion.

**7. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu y byddai Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus dynodedig yng Nghymru o fudd o gofio natur ddatganoledig rhannau helaeth o fywyd cyhoeddus Cymru**.**

**.......................................**

***Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân***

## Eitem 4
## Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

**NDM2318 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheolau Sefydlog 6.6 a 16.1, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar gyfer 2003-2004, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2005.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

......................................

**Eitem 5**
**Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 16**

**NDM2319 Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Chwefror; a

2. Yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a nodir yn yr Adroddiad.

*A Report of the Standards Committee in relation to these Standing Order Changes was laid on 23 February and can be accessed on the following hyperlink: http://assembly/plenary/Plenary/Laid%20Documents/second/default.asp*

Adroddiad y Pwyllgor Busnes

......................................

**Eitem 6**

**Y Ddadl Fer**

**NDM2320 Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Y Ddarpariaeth Gofal Plant yng Nghymru

......................................

**Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn 5.30pm**

......................................

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mawrth, 8 Mawrth 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**